**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**30 MAI 2012**

**EITEM WYBODAETH**
**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO, ADFYWIO A RHEOLEIDDIO**

# PROSIECTAU SEILWAITH MAWR

# ADRODDIAD DIWEDDARU

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Bydd Aelodau yn dwyn i gof adroddiadau blaenorol yn trafod prosiectau seilwaith mawr yn Sir Ddinbych.

1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ynghylch:

- newidiadau i'r broses gynllunio i brosiectau seilwaith mawr a gyflwynwyd gan Ddeddf Lleoliaeth/Localism Act 2011;
- y fframwaith statudol i brosiectau seilwaith mawr; a
- statws cyfredol prosiectau seilwaith mawr yn Sir Ddinbych.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae prosiectau seilwaith mawr yn ddatblygiadau ar raddfa eang fel harbwr, gorsafoedd pŵer (gan gynnwys ffermydd gwynt) a llinellau trawsyrru trydan; i'r rhain, mae angen math o ganiatâd a elwir yn 'ganiatâd datblygu' yn ôl gweithdrefnau a nodir gan Ddeddf Gynllunio 2008 (fel y diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011).

2.2 Cyn hyn, y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC) oedd yn ymdrin â phrosiectau seilwaith mawr. Dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, diddymwyd yr IPC ac o 1 Ebrill 2012 ymlaen, yr Arolygiaeth Gynllunio yw'r asiantaeth sy'n gyfrifol am weithredu'r broses gynllunio i brosiectau seilwaith mawr. Yng Nghymru, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn archwilio ceisiadau am ddatblygiadau ynni a harbwr, gan ddilyn yr amodau manwl a geir o fewn Deddf Gynllunio 2008 ('Deddf 2008').

2.3 Mae Deddf 2008 yn nodi trothwyau fel y bydd rhai mathau o ddatblygiadau seilwaith sy'n fwy na'r trothwyau hyn yn cael eu hystyried yn rhai ag arwyddocâd cenedlaethol, ac felly arnynt angen caniatâd datblygu. I brosiectau ynni yn Lloegr a Chymru, mae'n cynnwys:

- Gorsafoedd pŵer cynhyrchu trydan gyda gallu cynhyrchu gosodedig dros 50 megawat ar y tir a 100 megawat yn y môr. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu o danwyddau ffosil, ffermydd gwynt, biomas, ynni o wastraff a niwclear; a
- Llinellau pŵer trydan foltedd uchel sy'n 32,000 folt neu fwy.

2.4 Mae'n rhaid i unrhyw ddatblygwr sy'n dymuno cynnal prosiect seilwaith mawr yn gyntaf wneud cais am ganiatâd i wneud hynny. I brosiectau o'r fath, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn archwilio'r cais a bydd yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol, a fydd wedyn yn gwneud penderfyniad ynghylch rhoi neu wrthod caniatâd datblygu.

2.5 Mae Deddf 2008 yn rhoi dyletswydd ar ddatblygwr y prosiect i gynnal ymgynghoriad eang gyda phersonau, cyrff a chymunedau lleol penodol cyn cyflwyno cais am ganiatâd datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio. Mae'r rhestr o'r personau a'r cyrff penodol y mae'n rhaid ymgynghori â hwy yn Atodlen 1 i Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Dulliau a Gweithdrefnau Penodol) 2009; caiff Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned berthnasol eu diffinio fel cyrff penodol y mae'n rhaid ymgynghori â hwy.

2.6 Nid oes gorfodaeth statudol ar Awdurdodau Lleol i ymateb i unrhyw ymgynghoriad a gynhelir cyn cyflwyno cais nac ychwaith i gymryd rhan yn y broses archwilio.

2.7 Fodd bynnag, mae Rhan 8 o Ddeddf 2008 yn rhoi swyddogaeth orfodi i'r Awdurdod Lleol; felly, bydd gan y Cyngor y pŵer i gymryd camau gorfodi ar ôl i'r caniatâd gael ei roi os yw'r datblygiad yn torri'r amodau a nodir yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu.

2.8 Wrth wneud argymhelliad neu benderfyniad ynghylch cais am ganiatâd datblygu, mae'n rhaid i'r Arolygydd/Arolygwyr a benodwyd i archwilio'r cais roi sylw i unrhyw Ddatganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol; unrhyw Adroddiad Effaith Lleol a gyflwynir gan Awdurdod Lleol perthnasol, ac unrhyw fater arall sydd ym marn yr Arolygydd/Arolygwyr yn bwysig neu'n berthnasol.

2.9 Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i bolisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau cynllunio lleol, fodd bynnag dyletswydd yr Awdurdod Lleol neu unrhyw bersonau eraill a chanddynt ddiddordeb yw adnabod polisïau perthnasol a chyflwyno achos yn ystod proses archwilio'r cais, er mwyn dangos pam y dylid rhoi sylw arbennig i bolisi penodol.

2.10 O ystyried graddfa unrhyw ddatblygiad yn Sir Ddinbych ac effaith hyn ar ein cymunedau lleol, teimla Swyddogion ei bod yn holl bwysig bod y Cyngor yn cymryd rhan lawn yn y broses; yn hyn o beth, mae gweithgareddau allweddol yn cynnwys ymateb i ymgynghoriad cyn-cyflwyno cais, cyflwyno sylwadau ysgrifenedig a chynhyrchu Adroddiad Effaith Lleol. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craff Cymunedau (dyddiad i'w gadarnhau) i nodi'n union lefel cyfranogiad y Cyngor mewn achosion o brosiectau seilwaith mawr.

2.11 Mae Atodiad 1 yn crynhoi camau statudol y broses gynllunio i brosiectau seilwaith mawr sy'n effeithio ar yr Awdurdod lleol a'r gymuned leol.

## 3. PROSIECTAU SEILWAITH MAWR YN SIR DDINBYCH

3.1 Ar hyn o bryd, mae yna bum prosiect seilwaith mawr yn y camau cyn-cyflwyno cais sy'n effeithio ar Sir Ddinbych. Mae hyn yn cynnwys ffermydd gwynt môr ac ar y tir a llinellau pŵer trydan foltedd uchel newydd. Ymhellach, mae fferm wynt fôr Gwynt y Môr yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd. Rhoddir isod fanylion am yr holl brosiectau seilwaith mawr sy'n effeithio ar Sir Ddinbych:

**Prosiectau seilwaith mawr yn y môr**

3.2 Mae'r datblygiadau ffermydd gwynt môr oddi ar arfordir Gogledd Cymru yn cael eu dosbarthu fel datblygiadau seilwaith mawr ac maent yn effeithio ar Sir Ddinbych yn nhermau gweledol, gan effeithio ar y tirwedd a'r olygfa allan i'r môr. Mae gwaith cysylltu â'r grid ar y tir yn debygol o fod yn rhan o gais cynllunio ar wahân, a'r awdurdod cynllunio lleol fydd y corff dyfarnu yn hytrach na'r Arolygiaeth Gynllunio.

### 3.2.1 Fferm wynt Gwynt y Môr

- Ymgeisydd y prosiect yw RWE Renewables Ltd.
- Mae'r cynnig ar gyfer fferm wynt fôr 576 megawat (MW) ym Mae Lerpwl, oddeutu 18km oddi ar arfordir Gogledd Cymru.
- Bydd y datblygiad yn cynnwys 160 o dyrbinau 3.6MW a phob un yn mesur 150m o'r darn uchaf.
- Bydd gan y fferm wynt fôr bwynt cysylltu â'r grid yn Llanelwy.
- Rhoddodd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) ganiatâd i'r fferm wynt yn Rhagfyr 2008 a rhoddodd Cyngor Sir Ddinbych ganiatâd cynllunio i'r gwaith cysylltu â'r grid ar y tir ar ddechrau 2009.
- Mae'r datblygiad yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd.

### 3.2.2 Fferm Wynt Fôr Estyniad Burbo Bank

- Ymgeisydd y prosiect yw Dong Energy.
- Mae'r cynnig i ymestyn fferm wynt fôr Burbo Bank sydd eisoes ym Mae Lerpwl, oddeutu 7km i'r gogledd o Hoylake ar y Wirral a 12.2km o'r Parlwr Du yn Sir y Fflint.
- Bydd gallu cynhyrchu'r fferm wynt oddeutu 250MW a bydd y fferm wynt yn cynnwys uchafswm o 75 tyrbin, yn mesur 225m o'r darn uchaf.
- Mae estyniad y fferm wynt wedi cael cynnig pwynt cysylltu â'r grid yn Llanelwy, a bydd y gwaith cysylltu â'r grid ar y tir angen caniatâd cynllunio gan Gyngor Sir Ddinbych. Nid yw'r llwybr cysylltu ar y tir wedi'i bennu eto. Nid oes angen llinellau uwchben ar unrhyw rai o'r opsiynau sydd yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Bydd yr holl geblau o'r traeth i Lanelwy dan y ddaear, fodd bynnag bydd angen is-orsaf newydd.

- Mae'r datblygiad yn y cam cyn-ymgeisio. Dechreuodd yr ymgynghoriadau cyn-ymgeisio statudol ar 16 Ebrill 2012 a byddant yn parhau hyd 1 Mehefin 2012.
- Mae'r datblygwr yn bwriadu cyflwyno'r ceisiadau i'r Arolygiaeth Gynllunio a Chyngor Sir Ddinbych yn gynnar yn 2013.

**3.2.3 Ffermydd Gwynt Môr Parth Môr Iwerddon**

- Yn 2008, dechreuodd Ystad y Goron broses tendro cystadleuol i ddatblygu ffermydd gwynt môr mewn naw parth penodol o amgylch Prydain fel rhan o'r drydedd rownd o lesio ffermydd gwynt môr (gelwir hyn yn Rownd 3). Roedd hyn yn cynnwys Môr Iwerddon.
- Dyfarnodd Ystadau'r Goron yr hawliau datblygu i Barth Môr Iwerddon i Centrica yn Ionawr 2010. Yn mis Mawrth 2012, cyhoeddodd Centrica a Dong Energy eu bod yn creu partneriaeth fenter ar y cyd i ddatblygu, adeiladu a gweithredu ffermydd gwynt ym Mharth Môr Iwerddon.
- Mae rhaglen Gwerthuso a Chynllunio Parth wedi'i chwblhau sydd wedi clustnodi tair Ardal Ddatblygu Potensial lle y byddai modd lleoli datblygiadau ffermydd gwynt o fewn Parth Môr Iwerddon.
- Mae'r cynllun ar hyn o bryd yn y camau cyn-ymgeisio cynnar ac mae'r rhaglen ddatblygu yn cael ei dyfeisio ar hyn o bryd hefyd.

**Prosiectau seilwaith mawr ar y tir**

3.3 Mae'r datblygiadau ar y tir canlynol sy'n effeithio ar Sir Ddinbych yn cael eu diffinio fel datblygiadau seilwaith mawr.

**3.3.1 Fferm wynt Fforest Clocaenog**

- Ymgeisydd y prosiect yw RWE Npower Ltd.
- Mae'r cynnig ar gyfer fferm wynt 32 tyrbin a seilwaith cysylltiol yn Fforest Clocaenog. Byddai gan bob tyrbin allu cynhyrchu o rhwng 2 - 3MW a byddai uchder uchaf pob tyrbin yn 145 metr.
- Mae'r safle yn llwyr o fewn Ardal Chwilio Strategol Fforest Clocaenog a nodwyd yn Nodyn Cyngor Technegol 8 Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gyfeirio datblygiadau ffermydd gwynt ar raddfa fawr i fannau o fewn Ardaloedd Chwilio Strategol.
- Mae'r datblygiad yn y cam cyn-ymgeisio. Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau cyn-ymgeisio statudol ym Medi 2011a disgwylir i'r cais gael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio yn haf 2012.

**3.3.2 Fferm Wynt Mynydd Mynyllod**

- Ymgeisydd y prosiect yw Scottish Power Renewables Ltd.

- Mae’r cynnig ar gyfer fferm wynt hyd at 25 tyrbin a seilwaith cysylltiol ar Fynydd Mynyllod, oddeutu 5km i’r de orllewin o Gorwen. Byddai gan bob tyrbin allu cynhyrchu o rhwng 2 - 3MW a byddai uchder uchaf pob tyrbin yn 145 metr.
- Nid yw’r safle o fewn Ardal Chwilio Strategol Fforest Clocaenog a nodwyd yn Nodyn Cyngor Technegol 8 Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gyfeirio datblygiadau ffermydd gwynt ar raddfa fawr i fannau o fewn Ardaloedd Chwilio Strategol.
- Mae’r datblygiad yn y cam cyn-ymgeisio. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wybodaeth amgylcheddol gychwynnol yn Hydref 2011a disgwylir i’r ymgynghoriadau cyn-ymgeisio statudol ddechrau ym Mehefin 2012 (bydd yr ymgynghoriad yn parhau am 42 diwrnod).

### 3.3.3 Cysylltiadau Fferm Wynt Gogledd Cymru

- Ymgeisydd y prosiect yw Scottish Power Energy Networks (Scottish Power MANWEB) sef gweithredwyr y rhwydwaith ddosbarthu i ardal Gogledd Cymru.
- Mae’r gwaith ar gyfer seilwaith cysylltu’r grid cenedlaethol i gysylltu’r ffermydd gwynt sydd eisoes wedi cael caniatâd yn Ardal Chwilio Strategol Fforest Clocaenog ynghyd â Fferm Wynt Fforest Clocaenog sydd wedi’i chynnig, yn cael eu dosbarthu fel datblygiad seilwaith mawr, a bydd yn cynnwys llinellau pŵer 132,000 folt newydd o Fforest Clocaenog i Lanelwy. Nid yw union lwybr ac union natur y seilwaith wedi’u diffinio hyd yma, ond rhagwelir y bydd angen llinellau uwchben.
- Byddai angen caniatâd cynllunio gan Gyngor Sir Ddinbych i unrhyw is-orsafoedd newydd.
- Mae’r datblygiad yn y camau cyn-ymgeisio cynnar. Disgwylir ymgynghoriad cynnar gyda chymunedau lleol yng ngwanwyn/haf 2012 i helpu’r datblygwr glustnodi llwybrau posibl. Unwaith y bydd llwybr penodol yn dod i’r amlwg, bydd y datblygwr yn ymgynghori gyda’r Cyngor ar amodau’r Datganiad Tir Cyffredin a disgwylir ymgynghoriad cyn-ymgeisio ffurfiol yn Haf 2012.

### 3.3.4 Cysylltiad Grid Gogledd Cymru o'r Grid Cenedlaethol

- Ymgeisydd y prosiect yw’r Grid Cenedlaethol.
- Mae prosiect cysylltiad grid Gogledd Cymru o'r Grid Cenedlaethol wedi’i ddosbarthu fel prosiect seilwaith mawr a bydd yn effeithio ar Ogledd Cymru yn ei gyfanrwydd. Dyma ddatblygiad gwahanol i’r prosiect cysylltiadau Fferm Wynt Gogledd Cymru sy’n cael ei llywio gan Scottish Power Energy Networks.
- Mae’r cynnig i uwchraddio llinellau pŵer trydan Gogledd Cymru o'r Grid Cenedlaethol i gynyddu’r gallu ar y rhwydwaith trawsyrru (dyma’r llinellau foltedd uchel iawn ar beilonau mawr sy’n ymestyn ar draws Gogledd Cymru). Bydd y prosiect hwn yn effeithio ar bob un o awdurdodau lleol Gogledd Cymru, fodd bynnag mae’r opsiynau ar hyn o bryd ond yn cynnig

ail-bweru'r llinellau sydd eisoes yn croesi Sir Ddinbych; nid oes cynnig ar gyfer seilwaith newydd yn y sir (fodd bynnag mae cynigion ar gyfer llinellau pŵer a seilwaith newydd yn rhai o siroedd eraill Gogledd Cymru).

- Mae'r datblygiad yn y camau cyn-ymgeisio cynnar ac nid yw eto wedi'i gofrestru fel prosiect gyda'r Arolygiaeth Gynllunio.

3.4 Y swyddog arweiniol o fewn yr adran gynllunio i brosiectau seilwaith mawr ydy Denise Shaw, sef Swyddog Cynllunio Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy yn swyddfa Caledfryn. Mae hi'n barod i ateb unrhyw gwestiynau ynghylch y materion hyn.

3.5 Gellir canfod gwybodaeth bellach ar y prosiectau hyn ar wefannau'r datblygwyr. Mae Atodiad 2 yn cynnwys manylion cyswllt a chyfeiriadau'r we i'r prosiectau seilwaith mawr y cyfeirir atynt uchod.

**4 ARGYMHELLION**

4.1 Mae'r adroddiad hwn yn bennaf ar gyfer cyflwyno gwybodaeth, ond gofynnir i Aelodau nodi'r dyddiadau allweddol a nodir yn Adran 3 yr adroddiad. Gellir canfod nodiadau cyngor defnyddiol a gwybodaeth bellach ar wefan arbennig yr Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

http://infrastructure.planningportal.gov.uk/

**GRAHAM H. BOASE**

**PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO, ADFYWIO A RHEOLEIDDIO**